Hawdd ei Ddeall

## Cronfa'r Rhaglen Gyfalaf

# Gwybodaeth am gronfa'r Rhaglen Gyfalaf



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Ganllaw Cyffredinol ar Raglen Gyfalaf Cyngor Celfyddydau Cymru**'.

**Tachwedd 2021**

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai y bydd geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd i'w deall. Gallwch edrych beth mae'r holl eiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 27**.

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, bydd hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

**E-bost:** capital@arts.wales

**Ffôn:** **03301 242733**

**Gwefan:** arts.wales/about-us/contact-us

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Cyflwyniad** ..... 4

**Ynglŷn â'r ddogfen hon** ..... 5

**I beth mae'r gronfa'n dda** ..... 6

**Pwy sy'n gallu gwneud cais** ..... 7

**Y pethau y byddwn ni'n talu amdanyn nhw** ..... 9

**Y pethau fyddwn ni ddim yn talu amdanyn nhw** ..... 11

**Beth y gallwch chi wneud cais amdano** ..... 13

**Mwy o wybodaeth am y cronfeydd hyn** ..... 18

**Sut i wneud cais** ..... 19

**Ynglŷn â phroses y cais** ..... 22

**Sut y byddwn ni'n penderfynu pa brosiectau i roi arian iddyn nhw** ..... 23

**Beth sy'n digwydd nesaf** ..... 25

**Geiriau Anodd** ..... 27

# Cyflwyniad



**Cyngor Celfyddydau Cymru** ydyn ni.  Mae arnon ni eisiau i'r celfyddydau fod yn rhan fawr o fywyd yng Nghymru.



Un ffordd rydyn ni'n gwneud hyn yw trwy greu **cronfa** ar gyfer prosiectau celfyddyd.

Mae **cronfa** yn arian i helpu mudiadau i wneud eu gwaith.




Mae gennym ni **gronfa** sy'n cael ei galw'n **Raglen Gyfalaf**.

Fe gawson ni'r **gronfa** hon gan y Lotri Genedlaethol.



Mae'r **gronfa** hon yn helpu mudiadau celfyddyd i gael yr adeiladau neu'r offer iawn ar gyfer eu gwaith.

# Ynglŷn â’r ddogfen hon




Bydd y ddogfen hon yn eich helpu i wneud cais am arian o **gronfa** y **Rhaglen Gyfalaf**.



Yn y ddogfen hon byddwn yn defnyddio’r geiriau, ‘eich prosiect’. Eich prosiect yw’r peth y mae arnoch chi eisiau arian o’r **gronfa** ar ei gyfer. Er enghraifft, efallai mai eich prosiect fydd cael goleuadau newydd ar gyfer y theatr.



Gall prosiectau fod yn anodd i’w cynllunio a’u trefnu. Mae gennym ni swyddogion i’ch helpu.




Mae gennym ni hefyd yr wybodaeth ddiweddaraf ar ein gwefan: [arts.wales/cy/ariannu](arts.wales/cy/ariannu).



Dylech chi ddarllen ein Strategaeth Gyfalaf 2012-2017. Bydd hyn yn dweud wrthych chi am ein cynlluniau. A’r hyn mae arnon ni eisiau i’r **gronfa** hon gael ei defnyddio ar ei gyfer.

# I beth mae'r gronfa'n dda




Mae arnon ni eisiau i'r **gronfa** hon wneud celfyddydau Cymru yn well.

**Ein nodau yw:**



1. I gelfyddydau Cymru fod yn **gynhwysol** ac yn **hygyrch**.



Mae **cynhwysol** yn meddwl y gall bawb gymyd rhan, a bod pawb yn cael cyfle teg.

Mae **hygyrch** yn meddwl ei bod hi'n hawdd mynd i rywle. Ac i symud o gwmpas o un lle i'r llall.



2. I gelfyddydau Cymru fod yn gryf ac yn para am amser hir.



3. I ni weithio gyda mwy o bobl greadigol ar draws Cymru.

   Mae'n rhaid i unrhyw arian rydyn ni'n ei roi i chi ein helpu i gyrraedd y nodau hyn. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth trwy ddarllen Er budd pawb: arts.wales/sites/default/files/2019-02/Corporate_Plan_2018-23.pdf

# Pwy sy'n gallu gwneud cais




Dim ond mudiadau celfyddyd yng Ngymru sy'n gallu gwneud cais am arian o'r **gronfa** hon. Mae'n rhaid i'ch prosiect fod yng Nghymru hefyd.

**Mae'n rhaid i'ch mudiad:**



- Fod ag o leiaf dau o bobl yn ei redeg. Allan nhw ddim bod yn perthyn i'w gilydd nac yn byw yn yr un cyfeiriad.




- Fod â **pholisi cyfleoedd cyfartal** cyfreithlon a diweddar.





- Bod a chyfrif banc y mae o leiaf dau o bobl yn ei arolygu.



- Bod wedi gwneud prosiectau celfyddyd o'r blaen.



Chewch chi ddim gwneud cais am arian o'r **gronfa** os oes arnoch chi arian i ni.



Mae'n rhaid i chi lanlwytho eich **dogfen lywodraethol** pan fyddwch chi'n gwneud cais. Os nad ydych chi wedi ei rhoi i ni yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

**Bydd eich dogfen lywodraethol yn dangos i ni:**




- Eich bod wedi eich sefydlu eich hun yn iawn. A'ch bod yn medru rheoli eich arian yn dda.
- Bod gennych chi gynllun ar gyfer beth fyddai'n digwydd petaech chi'n cau i lawr.



Mae'n rhaid i chi fod yn aelod o **Bortffolio Celfyddydol Cymru** i wneud cais.




Os na, efallai y byddwn yn dal i ystyried eich prosiect. Ond bydd arnoch chi angen trafod y peth gyda ni yn gyntaf.

# Y pethau y byddwn ni'n talu amdanyn nhw



Gallwch ddefnyddio arian o'r **gronfa** hon i brynu pethau sy'n ddefnyddiol ar gyfer eich busnes. Fel:

- Adeiladau
- Offer
- Cerbydau



Gallwch ddefnyddio arian o'r **gronfa** hon i brynu neu wella'r pethau hyn.



Er enghraifft, efallai bod arnoch chi eisiau gwella eich theatr trwy ei wneud yn fwy **hygyrch**.



Mae arnoch chi angen dweud wrthyn ni sut y bydd eich prosiect yn gwneud pethau'n well.



**Efallai y byddwn ni hefyd yn talu am:**

- Bobl broffesiynol neu arbenigwyr, os gallwch chi ddangos y byddan nhw'n gwella eich prosiect.
- Artistiaid neu bobl sy'n gwneud crefftau.
- Treth na allwch chi ei hawlio'n ôl gan y llywodraeth.
- Costau cyfreithiol am eich prosiect.
- Costau am newid ble neu sut rydych chi'n gweithio, os yw hynny'n annisgwyl.




Efallai y byddwn ni'n newid y pethau y gallwn ni dalu amdanyn nhw o'r **gronfa** ar unrhyw adeg. Cyn i chi wneud cais, edrychwch ar ein gwefan am yr wybodaeth mwyaf diweddar.

# Y pethau fyddwn ni ddim yn talu amdanyn nhw

**Ni fydd y gronfa hon yn talu am:**



- Brynu offerynnau cerdd
- Adnewyddu adeiladau'r cyngor neu ysgolion nad ydyn nhw'n cyd-fynd â'n cynlluniau
- Prosiectau celfyddyd neu ddiwylliannol parhaol
- Pethau rydych chi wedi talu amdanyn nhw'n barod. Neu bethau rydych chi wedi cytuno'n barod i dalu amdanyn nhw.
- Costau cyffredinol i wneud eich gwaith. Fel yswiriant, cynnal a chadw neu i dalu am gyfrifydd
- Arian y byddwch chi'n ei dalu i gael help i wneud y cais hwn.

**Nid yw'r prosiectau canlynol mor bwysig i ni:**



- Adeiladau newydd. Mae'n well gennym ddefnyddio'r **gronfa** hon i wella adeiladau sydd mewn bod yn barod.



- Adeiladau cymunedol sy'n cael eu defnyddio ar gyfer llawer o wahanol brosiectau. Mae'n well gennym roi arian o'r **gronfa** hon i adeiladau sy'n gwneud prosiectau celfyddyd yn unig.




Mae’n rhaid i chi ddefnyddio dulliau cywir o gael nwyddau neu wasanaethau.



Os na fyddwch chi’n defnyddio dulliau cywir, ni fyddwn ni’n rhoi arian o’r **gronfa** i dalu am y nwyddau neu’r gwasanaethau hyn.




Gwnewch yn siŵr bod costau eich prosiect yn iawn pan fyddwch chi’n gwneud cais.



Os bydd arnoch chi angen mwy o arian yn ddiweddarach, ni allwn ni ei roi i chi.

# Beth y gallwch chi wneud cais amdano

**Mae gan y Rhaglen Gyfalaf dair gwahanol gronfa:**



- ar gyfer prynu offer



- ar gyfer prosiectau adeiladu bach

**Rydyn ni’n galw’r rhain yn brosiectau cyfalaf bach.**



- ar gyfer prosiectau adeiladu mawr

**Rydyn ni’n galw’r rhain yn brosiectau cyfalaf mawr.**



Mae’r ffordd rydych chi’n gwneud cais yn wahanol ar gyfer pob **cronfa**. Mae hynny o arian rydych chi’n ei gael yn wahanol ar gyfer pob **cronfa**.

# Prynu offer




Gallwch wneud cais am arian o'r **gronfa** hon os oes arnoch chi eisiau cael offer newydd.



Neu wella offer sydd gennych chi'n barod.



Os byddwch chi'n gwneud cais i fyny at **50 mil o bunnau**, dylai fod ar gyfer pethau fel:

- offer ar gyfer theatrau
- offer technegol ar gyfer arddangosfeydd
- lloriau dawns y gallwch eu symud
- cerbydau.



Os byddwch chi'n gwneud cais i fyny at **100 mil o bunnau**, dylai fod ar gyfer pethau fel:

- cael offer sain a golau newydd sbon
- offer tafluniad digidol newydd
- offer llwyfan newydd.

**Y swm mwyaf o arian y gallwch chi wneud cais amdano yw 100 mil o bunnau.**

# Prosiectau cyfalaf bach



Mae'r **gronfa** hon ar gyfer prosiectau adeiladau bach.



Gallwch ei ddefnyddio i wneud eich adeilad yn well.
A helpu eich busnes i bara am amser hir.

**Gallech chi ddefnyddio'r gronfa hon ar gyfer:**



- gwneud newidiadau er mwyn i chi fedru cael technoleg newydd yn eich adeilad

- gwella eich man bwyta neu gaffi




- adnewyddu rhannau o'r adeilad er mwyn iddo edrych yn well ar gyfer cwsmeriaid

- gwneud eich adeilad yn fwy **hygyrch**.




Gallwch ddefnyddio'r **gronfa** hon ar gyfer pethau yn ymwneud â Covid 19.



Fel gosod arwyddion. Neu wneud ansawdd yr aer yn well.



Gallwch ddefnyddio'r **gronfa** hon i wneud eich adeilad yn well ar gyfer yr **amgylchedd**.

Yr **amgylchedd** yw'r lle rydyn ni'n byw. Mae'n cynnwys y tir, y môr, yr aer, a phopeth sy'n byw ynddo ac arno. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid, a physgod.



Er enghraifft, gwella eich adeilad er mwyn iddo ddefnyddio llai o wres neu drydan.




Y swm mwyaf o arian y gallwch chi wneud cais amdano yw **100 mil o bunnau**.



## Prosiectau cyfalaf mawr

Mae'r **gronfa** hon ar gyfer prosiectau adeiladau llawer mwy.




Dim ond i ychydig o brosiectau y byddwn ni'n rhoi arian o'r **gronfa** hon.



Mae'n rhaid i'r prosiectau hyn wneud gwahaniaeth mawr i'r celfyddydau dros Gymru gyfan.



Gallwch wneud cais am **100 mil o bunnau** neu fwy.



Ond byddwn yn gadael i chi wybod yn union faint o arian y gallwn ni ei roi i chi.



Byddwn yn gweithio'n agos iawn gyda chi i gynllunio eich prosiect.

# Mwy o wybodaeth am y cronfeydd hyn



Dim ond ar gyfer rhan o'ch prosiect y byddwn ni'n rhoi arian. Ni fyddwn byth yn talu am y cyfan ohono.



Rydyn ni'n fwy tebygol o'ch helpu os byddwch chi'n cael arian o **gronfeydd** eraill hefyd.



Os ydych chi'n cael arian o **gronfeydd** partneriaid eraill, mae'n dangos i ni bod gennych chi syniad da.

Lleoedd eraill y gallech chi gael help ac arian **cronfeydd**:



- eich arian eich hun
- codi arian
- arian gan bartneriaid eraill
- arian gan y Llywodraeth
- cronfeydd lotri eraill
- pethau rydych chi'n eu cael am ddim. Fel gwaith gan wirfoddolwyr. Neu roddion o offer.

# Sut i wneud cais





Gallwch wneud cais unwaith y flwyddyn i'r **Rhaglen Gyfalaf**.



Mae'n rhaid i chi siarad ag un o'n swyddogion cyn i chi wneud cais.




Bydd ein swyddogion yn dweud wrthych chi beth yw'r rheolau ar gyfer eich prosiect arbennig.




Does **dim dyddiad cau** ar gyfer gwneud cais am y **Rhaglen Gyfalaf**.



Ond efallai y bydd dyddiad cau ar gyfer rhai rhannau o'r **cronfeydd**.




Dylech chi edrych ar ein gwefan i gael mwy o wybodaeth. arts.wales/cy/ariannu


**Os oes arnoch chi eisiau mwy na 50 mil o bunnau:**



- dywedwch ychydig o wybodaeth sylfaeonol wrthyn ni  am eich prosiect yn gyntaf



- byddwn yn edrych a yw eich prosiect yn cyd-fynd yn dda â'n cynlluniau




- os yw eich prosiect yn cyd-fynd yn dda â'n cynlluniau, yna byddwn yn gofyn i chi ymgeisio




- cofiwch, nid yw ymgeisio am arian o'r **gronfa** yn meddwl y byddwch chi'n ei gael.



Dylech chi feddwl yn ofalus faint o arian y bydd eich prosiect cyfan yn ei gostio.

**Mae ceisiadau am brosiectau cyfalaf mawr mewn tri cham:**




- edrychwch a yw eich prosiect yn bosibl ei wneud. Ac yn werth ei wneud





- cynlluniwch fanylion eich prosiect




- cyfrifwch faint yw'r gost.



Byddwn yn edrych ar bob cam o'ch cais i wneud yn siŵr ei fod yn iawn.




Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am wneud cais am brosiectau cyfalaf mawr yn ein dogfen: **Prosiectau cyfalaf mawr - Help gyda'ch cais.**

# Ynglŷn â phroses y cais



Yn gyntaf mae arnoch chi angen cofrestru i ddefnyddio'n porth ar-lein. Cofrestrwch trwy glicio yma. https://portal.arts.wales.



Yna gallwch wneud cais am y **Rhaglen Gyfalaf** trwy ddefnyddio'r porth ar-lein.



Os oes arnoch chi angen help cysylltwch â ni yn grants@art.wales



Byddwn yn gadael i chi wybod pan fyddwn ni'n cael eich cais.



Byddwn yn gadael i chi wybod a yw eich prosiect yn cyd-fynd â'n cynlluniau. Ac a oes unrhyw beth ar goll.



Os bydd eich prosiect yn cyd-fynd â'n cynlluniau, byddwn yn penderfynu wedyn a allwn ni roi arian o'r **gronfa** ar ei gyfer.

# Sut y byddwn ni'n penderfynu pa brosiectau i roi arian iddyn nhw





Mae gennym ni reolau i benderfynu pa brosiectau y byddwn ni'n rhoi arian o'r **gronfa** iddyn nhw. Byddwn yn edrych:

- A yw eich prosiect yn cyd-fynd â'n nodau a'n cynlluniau.
- A yw eich prosiect yn cwrdd ag angen.
- A oes gennych chi brosiect o ansawdd da.
- A yw eich prosiect yn helpu pobl.
- A yw eich prosiect yn **hygyrch**.



**Byddwn yn edrych hefyd:**

- Pa mor gryf yw eich mudiad.
- A ydyn ni'n meddwl y gallwch chi gynllunio a rheoli prosiect yn dda.
- A ydyn ni'n meddwl y bydd y prosiect yn llwyddiannus
- Sut y byddwch chi'n delio ag unrhyw broblemau.




Dylech chi ddarllen Y Rhaglen Gyfalaf - Help â'ch cais. Bydd hon yn dweud wrthych chi beth y dylech chi ddweud wrthyn ni yn eich cais.

## Pwy sy'n penderfynu pa brosiectau i roi arian iddyn nhw



Mae gennym ni wahanol bobl i benderfynu pa brosiectau i roi arian o'r **gronfa** iddyn nhw.



Mae'n dibynnu ar y swm o arian. Ac ar gyfer beth mae o.



I gael i fyny at **50 mil o bunnau** ar gyfer offer, bydd grŵp o swyddogion yn penderfynu.



Bydd ein **pwyllgor cyfalaf** yn penderfynu ynghylch pob cais arall am offer.



Bydd ein **pwyllgor cyfalaf** yn penderfynu ynghylch prosiectau cyfalaf bach a mawr.




Ar gyfer prosiectau cyfalaf mawr o fwy na **250 mil o bunnau**, bydd y cyngor yn penderfynu.

# Beth sy'n digwydd nesaf



Os yw eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn gadael i chi wybod.




Byddwn hefyd yn gadael i chi wybod a oes arnon ni angen mwy o wybodaeth.




Bydd yn rhaid i chi gytuno â rhai pethau cyn y byddwn ni'n rhoi unrhyw arian i chi.




Ar gyfer **prosiectau cyfalaf** mawr bydd arnoch chi angen llofnodi cytundeb.



Os na fydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn gadael i chi wybod pam.




Gallwch siarad â ni am ein rhesymau os oes arnoch chi eisiau.

# Sut y byddwn ni’n edrych ar eich prosiect



Bydd arnon ni angen gweld eich bod yn gwario arian **cronfa** y lotri yn y ffordd iawn.




Bydd y ffordd y byddwn ni’n edrych yn dibynnu ar y math o brosiect sydd gennych chi.



Byddwn yn edrych yn fwy manwl ar brosiectau mwy.



Os na fyddwch chi’n gwario’r arian yn y ffordd iawn, efallai y bydd arnoch chi angen ei dalu’n ôl.




Gallwch ddod o hyd i lawer mwy o wybodaeth am y **gronfa** ar ein gwefan.



Bydd yr wybodaeth hon yn eich helpu i wneud cais da.

# Geiriau Anodd

## Amgylchedd

Yr amgylchedd yw'r lle rydyn ni'n byw. Mae'n cynnwys y tir, y môr, yr aer, a phopeth sy'n byw ynddo ac arno. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid, a physgod.

## Cronfa

Mae cronfa yn arian y gall mudiadau ei gael i'w helpu i wneud eu gwaith.

## Cynhwysol

Mae cynhwysol yn meddwl y gall bawb gymryd rhan, a bod pawb yn cael cyfle teg.

## Hygyrch

Mae hygyrch yn meddwl ei bod hi'n hawdd mynd i rywle. Ac i symud o gwmpas o un lle i'r llall.